

# Tirweddau diwylliannol Arfon

# Cultural Landscapes of Arfon

## Tirweddau amaethyddol

Er bod y dirwedd mewn rhai llefydd wedi ei ffurfio yn ystod diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau helaeth, o ran gwella stadau a chau tiroedd comin, ceir tystiolaeth sylweddol sy'n awgrymu bod patrwm llawer o'r caeau sydd ar y llechweddau sy'n wynebu'r môr yn deillio o'r cyfnod cynhanesyddol.




## Relict landscapes

The area is very rich in upstanding remains of prehistoric settlements (defined by so-called hut circles), often still associated with their contemporary field systems (many of which remain in use today). There is also extensive evidence for medieval settlements and agriculture, mainly in upland locations.



## Cysylltiadau celfyddydol a llenyddol

Mae'r ardal wedi bod yn gartref, ac yn ysbrydoliaeth, i lawer o lenorion ac artistiaid dros y blynyddoedd. Ysgrifennodd yr enwog Kate Roberts am y cymunedau chwarelyddol yn ardal Rhostryfan, a disgrifiodd R Williams Parry, ymhlith eraill, hanes yr ardal a'i thirwedd mewn cerddi. Mae peintiad Richard Wilson o Eryri o gyfeiriad Dyffryn Nantlle yn un o'r delweddau cryfaf sydd yng nghelfyddyd Cymru.



## Agricultural landscapes

Although in some places the landscape is very much a product of the late eighteenth and the early-to-mid nineteenth centuries, in terms of estate improvement and enclosures of common land, there is substantial evidence for the prehistoric origin of many of the field patterns on the sea-facing slopes.

## Tirweddau creiriol

Mae gan yr ardal doreth o olion aneddiadau cynhanesyddol sydd wedi goroesi (i'w gweld ar ffurf cylchoedd cytiau fel y'u gelwir), ac yn aml iawn maent yn dal i fod yn gysylltiedig â systemau caeau'r cyfnod (llawer ohonynt yn dal i gael eu defnyddio heddiw). Ceir tystiolaeth sylweddol hefyd o aneddiadau ac amaethyddiaeth ganoloesol, ar dir uchel yn bennaf

## Artistic and literary associations

The area has been the home of, and the inspiration for, many writers and artists over the years. Kate Roberts famously wrote about the slate-quarrying communities around Rhostryfan, and R Williams Parry, amongst others, described the history of the area and its landscape in poems. Richard Wilson's painting of Snowdon from Nantlle is one of the most enduring images in Welsh art.





# Tirweddau diwylliannol Arfon

# Cultural Landscapes of Arfon

## Tirweddau diwydiannol

Erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif, roedd criwiau o chwarelwyr wedi dechrau trawsnewid y dirwedd ar dir comin y Cilgwyn. Erbyn canol y ganrif nesaf, roedd tyllau dwfn yn cael eu cloddio, ac mae'r llechi a dynnwyd o'r rhain, a'r gwastraff a adawyd ar eu holau, wedi arwain at dirwedd nodweddiadol iawn, gydag incleins, blondins, cytiau pwmpio a bastiynau anferth i ddal y llechi yn ôl.

## Industrial landscapes

By the early eighteenth century, gangs of quarrymen on Cilgwyn common were already transforming the landscape. By the middle of the next century, deep pits were being excavated, and the extraction of slate from these, and subsequent disposal of waste, has led to a particularly characteristic landscape of inclines, blondins, pumping houses and enormous slate retaining bastions.

## Settlement landscapes

Over much of the area, dispersed farms form the typical settlement pattern. The small cottages within enclosures on Moel Tryfan are particularly distinctive. With the exception of Caernarfon, the towns and villages in the area are nineteenth-century creations, arising out of the growth of the slate industry or improved communications.

## Tirweddau anheddol

Y patrwm anheddu sy'n nodweddiadol o ran helaeth o'r ardal yw ffermydd gwasgareddig. Mae'r bythynnod bychain o fewn llociau sydd ar Foel Tryfan yn nodweddiadol iawn o'r ardal. Ar wahân i Gaernarfon, cafodd y trefi a'r pentrefi sydd yn yr ardal eu creu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o ganlyniad i dwf y diwydiant llechi neu welliannau mewn dulliau cyfathrebu.

## Llwybrau cyfathrebu

Mae rhan helaeth o reilffordd Nantlle, a ddatblygwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, i'w gweld o hyd fel nodwedd yn y dirwedd, ac mae'r rheilffyrdd sydd o amgylch chwareli Moel Tryfan yn dangos yn glir sut y datblygwyd technoleg y rheilffyrdd cul. Mae system ffyrdd yr ardal, gyda'i hisadeiledd o bontydd, pentrefi a thafarndai, yn deillio bron yn gyfan gwbl o ddyddiau'r tollbyrth a datblygiadau diweddarach y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

## Communication routes

The early nineteenth-century Nantlle railway survives as a landscape feature throughout much of its length, while the railways around the Moel Tryfan quarries clearly illustrate the development of narrow-gauge railway technology. The road system in the area, with its infrastructure of bridges, villages and taverns, is almost entirely the result of turnpike and later nineteenth-century advances.

